Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig
PENNAETH: Dr Rhodri Thomas

Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.gov.uk

3ydd o Fawrth, 2021

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Ysgrifennwn i'ch hysbysu o'n trefniadau ar gyfer croesawu mwy o ddisgyblion yn ôl i'r ysgol o'r wythnos yn cychwyn 15fed Mawrth ymlaen. Bydd cadarnhad terfynol o'r trefniadau hyn yn digwydd wedi i Brif Weinidog Cymru wneud datganiad ar 12fed Mawrth, a hynny oherwydd yr angen i weithredu yn unol â'r sefyllfa lechyd Cyhoeddus ar y pryd. Serch hyn, rydym am gyfathrebu ein bwriadu gyda chi er mwyn inni gyd baratoi at ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.

Trefn dychwelyd i'r ysgol

Yn ystod yr wythnos yn cychwyn **15fed Mawrth** byddwn yn croesawu grwpiau arholiad nôl i'r safle fel a ganlyn:

Blwyddyn 11	Dydd Llun, 15fed o Fawrth
Blwyddyn 12	Dydd Llun, 15fed o Fawrth
Blwyddyn 13	Dydd Llun, 15fed o Fawrth

Yn ystod yr wythnos yn cychwyn **22ain Mawrth**, byddwn yn croesawu disgyblion blwyddyn 10 nôl i'r safle ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb. I gadarnhau, ni chynhelir diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddydd Gwener 26ain Mawrth, fel y nodir yng nghalendr yr ysgol.

Byddwn yn cysylltu gyda rai rhieni disgyblion blynyddoedd 7,8 a 9 yn unigol o ran cyfleoedd posib i rai cael 'check in' byr cyn y Pasg. Ni fydd y 'check in' yn fwy na hanner diwrnod, a bydd y rhain yn canolbwyntio ar les y disgyblion hyn.

Bydd yr ysgol ar gau ar gyfer Gwyliau'r Pasg o ddydd Llun 29ain Mawrth, ac yn ail agor ar ddydd Llun 12fed Ebrill. Bydd pob disgybl yn medru dychwelyd yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg.

Mygydau

Bydd gofyn i bob disgybl wisgo mwgwd yn y dosbarth, oni bai bod yna reswm meddygol sy'n eu heithrio rhag gwneud hynny. Bydd disgyblion sy'n teithio i'r ysgol mewn bws neu dacsi hefyd yn gorfod gwisgo mwgwd ar gludiant ysgol.

Diogelwch

Mae'r holl fesuriadau trylwyr oedd ar waith gyda'r ysgol yn parhau o ran cadw grwpiau cyswllt, cymryd tymheredd, parthau blynyddoedd, hylendid a glanhau ychwanegol.

Trafnidiaeth

Bydd trafnidiaeth ysgol yn rhedeg fel arfer o'r 15fed Mawrth ymlaen ar gyfer disgyblion sy'n gymwys. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd ichi gludo'ch plentyn i'r ysgol er mwyn ceisio cadw'r niferoedd sydd ar y bysiau yn isel. Er mwyn lleihau tagfeydd traffig gyda'r bysiau gofynnwn i chi ollwng eich plant ger maes parcio'r ysgol yn hytrach na syth o flaen yr adeilad.

Bwyd

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig
PENNAETH: Dr Rhodri Thomas

Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.gov.uk

Bydd y ffreutur yn agor ar ddydd Llun 22ain Mawrth. Bydd angen pecyn bwyd ar gyfer yw wythnos yn dechrau'r 15fed. Bydd taliadau uniongyrchol i rai sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn parhau i bawb tan Fawrth 22ain, gyda thaliadau uniongyrchol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 yn parhau tan bo'r blynyddoedd hyn yn dychwelyd.

Gwisg Ysgol

Disgwylir i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn eu gwisg ysgol. Cysylltwch gyda'r ysgol i drafod os oes unrhyw broblemau ynghylch hynny.

Profion Llif Unffordd (Lateral Flow Tests)

Bydd disgyblion o flynyddoedd 10, 11, 12 a 13 yn medru derbyn profion llif unffordd i'w defnyddio yn y cartref. Bydd mwy o wybodaeth i'w ddilyn o ran cyfarwyddiadau ar gyfer y profion hyn. Bydd y disgyblion yn casglu eu profion o'r ysgol ac yn derbyn digon am 3 wythnos.

Disgwylir i ddisgyblion weithredu'r profion ar nos Sul a nos Fercher ar ôl 5yh gan gysylltu gyda'r ysgol ar unwaith os ydy'r prawf yn un positif.

Dylid cysylltu â'r ysgol ar y nosweithiau hyn drwy anfon e-bost i LFT@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Symptomau

Dylai unrhyw un sydd â symptomau Covid-19 aros gartref ar unwaith ac archebu prawf. Mae angen i'r aelwyd gyfan hunan-ynysu nes bod canlyniad y prawf yn hysbys.

Mae'r symptomau'n cynnwys tymheredd uchel, peswch parhaus newydd a cholled neu newid i ymdeimlad o arogl neu flas. Gall fod symptomau eraill yn gynnar, fel cur pen, blinder a gwynegon cyffredinol a phoenau sy'n gysylltiedig â'r ffliw fel arfer.

Cyfyngderau

Er ein bod yn gobeithio bod disgyblion yn medru dychwelyd i'r ysgol o'r 15fed Mawrth ymlaen, mae'r cyfyngderau presennol yn parhau o ran yr angen i bawb gadw oddi fewn i'w aelwyd a pheidio â chymysgu ag eraill. Holwn yn garedig ichi atgoffa'ch plentyn o'r gofynion hyn.

Edrychwn ymlaen yn fawr at fedru croesawu'ch plentyn yn ôl i safle'r ysgol. Diolch o galon ichi fel rheini a gofalwyr am eich holl ymdrechion i gynorthwyo gydag addysg eich plant gydol y cyfnod hwn.

Yn gywir,

(Dr Rhodri Thomas)